**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales

12 Chwefror 2024

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol) 2024.

Derbyniais lythyr gan y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch, y Môr a Materion Gwledig, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon ar 16 Hydref 2023, yn gofyn am ein cydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn cwmpasu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Mae Rheoliadau 2024 yn ymwneud â gweithredu Fframwaith Windsor, fel y cytunwyd arno gan y DU a'r UE ar 27 Chwefror 2023, a chânt eu gwneud o dan Adran 8C(1) a (2) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Ar hyn o bryd o dan Brotocol Gogledd Iwerddon, daeth pob symudiad anfasnachol o anifeiliaid anwes o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon o dan ofynion llawn yr UE ar gyfer trydydd gwledydd ar 1 Ionawr 2021, yn dilyn diwedd y Cyfnod Pontio. Sefydlir y gofynion hyn gan Reoliad (UE) Rhif 576/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 12 Mehefin 2013 ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol ("Cynllun Anifeiliaid Anwes yr UE").

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae Fframwaith Windsor yn newid Protocol Gogledd Iwerddon ac yn rhoi fframwaith newydd, cynaliadwy a gwydn ar waith ar gyfer symud anifeiliaid anwes am resymau anfasnachol. Mae Rheoliadau 2024 yn nodi'r telerau ar gyfer gallu symud anifeiliaid anwes trwy Gynllun Teithio Anifeiliaid Anwes Gogledd Iwerddon. Maent yn nodi hefyd y bydd angen i berchennog yr anifail anwes wneud cais am ddogfen deithio anifeiliaid anwes sy'n ddilys am oes yr anifail anwes. Wrth wneud cais am y ddogfen, bydd angen i berchnogion anifeiliaid anwes ddarparu gwybodaeth benodol i'r awdurdod cymwys perthnasol, a bydd hefyd gofyn i wneud yn siŵr bod gan bob ci, cath a ffured (gan gynnwys y rheini yng Ngogledd Iwerddon) microsglodyn. Bydd gofyn i berchennog anifail anwes (neu'r sawl sy'n teithio gydag anifail anwes) wneud datganiad na fydd yr anifail anwes yn cael ei symud i'r UE wedi hynny.

Ni fydd angen i berchennog o Ogledd Iwerddon wneud mwy na microsglodynnu ei anifail anwes er mwyn cael teithio i ac o Brydain Fawr ac ni fydd angen dogfen deithio anifeiliaid anwes nac unrhyw broses arall.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ond yn yr achos hwn, ystyriwyd y byddai'n briodol i'r offeryn hwn fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud sy'n gydlynol ac yn gyson, ac yn golygu bod y rheoliadau ar gael mewn un offeryn statudol. Rwyf o'r farn nad deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru chwaith, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yr eiddoch yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**